# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Trefniadau Trosiannol etc.) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **7 Awst 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**<u>Y gyfraith sy'n cael ei diwygio</u>**

<u>Diwygio is-ddeddfwriaeth</u>

Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

<u>Diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir</u>

- Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu

  cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol.
- Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 566/2008 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â marchnata cig anifeiliaid buchol sy'n 12 mis oed neu'n iau.
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â'r sector ffrwythau a'r llysiau a'r sector ffrwythau a llysiau wedi'u prosesu.
- Rheoliad gan y Comisiwn (EC) Rhif 1295/2008 ar fewnforio hopys o drydydd gwledydd.

**Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2019 yn diwygio darpariaethau yn Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 sy'n cynnwys darpariaethau trosiannol, er

mwyn ystyried diwygiadau dilynol i’r diffiniad o “exit day” yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae Rheoliadau 2019 hefyd yn cywiro anghysondebau yn y ffordd y drafftiwyd Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2019 ac yn ymdrin â mân ddarpariaethau anweithredadwy nad ymdriniwyd â hwy.

Mae Rheoliadau 2019 hefyd yn mewnosod darpariaethau i Reoliadau
Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2019 a fydd yn trosglwyddo swyddogaethau sy'n arferadwy o ran Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ddilyffethair mewn perthynas â swyddogaethau penodol a nodir yn Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu
cyd-drefniadaeth ar gyfer marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei gael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2019 yn mewnosod darpariaethau i Reoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â’r UE) 2019 a fydd yn trosglwyddo swyddogaethau sy'n arferadwy o ran Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ddilyffethair.

Nodir y swyddogaethau perthnasol yn erthyglau 158(5), 159 a 163(3) o Reoliad (UE) Rhif 159/163 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol:

- Cydnabod Sefydliadau Cynhyrchwyr yn y sector ffrwythau a llysiau.

- Swyddogaethau ategol sy'n gysylltiedig â chydnabod Sefydliadau Rhyng-ganghennol (gan gynnwys sefydliadau o'r fath yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth), megis cynnal gwiriadau a gorfodi.

Mae pwnc Rheoliadau 2019 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y mae'n ymwneud ag amaethyddiaeth a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), ac nid yw'n dod o dan unrhyw un o'r materion a gadwyd yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O'r herwydd, dylai Llywodraeth y DU, yn unol â'r Cytundeb Rhynglywodraethol, fod wedi ceisio cysyniad Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau 2019.

Mae'r swyddogaethau a drosglwyddwyd fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion paragraff 11(2) o Atodlen 7B i

Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n ofynnol ymgynghori â'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU os oes unrhyw un o Filiau'r Cynulliad yn ceisio dileu neu addasu swyddogaethau o'r fath.

**Pam na roddwyd cydsyniad**

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod amaethyddiaeth a'r PAC yn faterion sydd wedi'u datganoli ac nad ydynt yn faterion a gadwyd yn ôl o dan unrhyw bennod yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno, ac mae o'r farn bod pwnc Rheoliadau 2019 yn un a gadwyd yn ôl. Felly, nid yw Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hynny'n groes i'r Cytundeb Rhynglywodraethol. Rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i'w hysbysu o'n barn nad yw'n briodol i Weinidogion Llywodraeth y DU wneud penderfyniadau unochrog ar faterion nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar feysydd cymhwysedd datganoledig.